



DARLLENWCH
Luc 24: 1-12,
a 33-49



**ADNODAU
ALLWEDDOL**
Luc 24:46-47

Astudiaeth 3 Pedr – Gwersi mewn Tristwch a Llawenydd



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Ioan 16: 20-22 Actau 13: 38 a 39 I Pedr 2: 21-25

Ar ôl i Pedr wadu Iesu, tybed faint o achos llys Iesu a'r croeshoeliad a welodd?



C Darllenwch I Pedr 5: 1 ac ysgrifennu'r rhan o'r adnod sy'n awgrymu ei fod wedi gweld rhywfaint.

Mae adnodau eraill yn ei lythyron sy'n sôn bod Pedr yn dyst i farwolaeth Iesu.

C Darllenwch I Pedr 3:18 ac ysgrifennu'r rhesymau pam y bu i Crist ddioddef.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a rhoi cylch o gwmpas y geiriau sy'n dweud dros bwy y dioddefodd Crist.

Gadawodd marwolaeth Iesu argraff ddofn ar Pedr am amser hir. Beth amdanoch chi? Ydych chi wedi sylweddol bod Crist wedi marw drosoch chi? Ydych chi'n deall ei fod wedi cael ei gosbi dros eich pechod chi, er mwyn i chi gael eich achub?

Mae'n rhaid bod y diwrnod y bu Iesu farw yn ddiwrnod ofnadwy i Pedr. Mae'n siwr y byddai'n hoffi cael cyfle i ddweud wrth ei bod yn ddrwg ganddo. Yn y Darlleniad o'r Beibl, rydyn ni'n cael gwybod sut y trodd tristwch Pedr yn llawenydd!

C Tanlinellwch y geiriau cywir yn y brawddegau hyn.

Yn HWYR / GYNNAR iawn ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos, daeth y DISGYBLION / MENYWOD / OFFEIRIAID at y bedd. Gwelsant fod y LLEN / DRWS / GARREG wedi'i symud o'r fynedfa. Aethant i mewn ond nid oedd CORFF/DILLAD Iesu yno. Dywedodd PEDWAR / TRI / DAU ddyn mewn dillad disglair wrthynt ei fod wedi codi ac felly aethant i ddweud wrth y DEG / UN AR DDEG / DEUDDEG disgybl beth oedd wedi digwydd..

C Mae Marc 16: 7 yn dweud wrthym bod y merched i fod i ddweud wrth un person yn arbennig fod yr Arglwydd Iesu wedi atgyfodi. Pwy oedd hwnnw?

1

2

2

3

1

C Beth oedd Pedr a'r lleill yn ei feddwl o'r newyddion a gawsant gan y merched?
(Gweler Luc 24:11)

Rhedodd Pedr at y bedd i weld drosto'i hunan.

C Disgrifiwch yn eich geiriau eich hunan beth a welodd a sut yr oedd yn teimlo.

Mae'n rhaid bod Pedr yn synnu o glywed bod yr angylion wedi sôn amdano ef yn benodol. A fyddai Iesu wir eisiau gweld yr un oedd wedi'i siomi? Doedd dim rhaid iddo aros yn hir! Rhywbryd yn ystod diwrnod ardderchog yr Atgyfodiad, daeth Pedr wyneb yn wyneb â'r Arglwydd Iesu! Dydyn ni ddim yn gwybod beth ddywedon nhw wrth ei gilydd.

C Ond mae adnod 34 yn dweud yn glir eu bod wedi cwrdd. **Ysgrifennwch yr adnod yma.**


Darllenwch adnodaau 36-43 ac ateb y cwestiynau isod.

Ar Draws

1. Beth ddywedodd Iesu wrth y disgyblion pan ymddangosodd iddynt?

I Lawr

1. Dangosodd Iesu'r rhain i'w ddisgyblion.
- 2 a 4. Gofynnodd Iesu i'r disgyblion pam yr oedd _____ yn codi yn eu meddyliau a pham yr oeddent wedi _____.
3. _____ Iesu ei ddwylo i'r disgyblion hefyd.
5. Nid oes gan ysbryd y rhain.
6. Roedd ___ ar y disgyblion.
7. Roedd y disgyblion yn _____ bod Iesu wedi ymddangos iddynt.



C Pam yr oedd ofn ar y disgyblion?

Dyna brofiad i Pedr a'i ffrindiau! Dim rhagor o dristwch ac ofn ond llawenydd mawr wrth weld eu Harglwydd wedi atgyfodi. Pan fyddwn ni'n dweud sori o waelod calon am ein pechodau ac yn credu bod Iesu wedi marw ac wedi atgyfodi i fod yn Waredwr i ni, mae ein tristwch ninnau'n troi'n llawenydd wrth i ni gael maddeuant a bywyd tragwyddol. Dyna oedd y neges y dywedodd Iesu wrth Pedr a'r disgyblion ei bod yn rhaid iddynt ei phregethu yn ei enw Ef.

C Ysgrifennwch y ddau beth yr oeddent nhw i fod i'w pregethu. (Adnod 47).

1.
2.